**Vaughan Gething AS**
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Julie Morgan AS**
Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidogion

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**

Yn unol â'n harfer, ysgrifennaf cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor.

Rydym yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 21 Rhagfyr 2020, a hoffem gynnal sesiwn tystiolaeth lafar gyda chi'ch dau yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y Clerc yn cysylltu â'ch swyddfeydd i drafod dyddiadau.

I helpu â'n paratoadau, byddwn yn ddiolchgar o dderbyn manylion y wybodaeth a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei darparu, erbyn dydd Mawrth 22 Rhagfyr.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1**

**Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21.**

**Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, camau gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb;
- Dyraniadau dangosol y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22;
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2021-22 a'r Ail Gyllideb Atodol 2021-22 (Hydref 2020).
- Byddai o gymorth pe gallai'r dadansoddiad drafod y newidiadau, os gwaed unrhyw newidiadau, sy'n adnoddau ychwanegol yn benodol ar gyfer ymateb i COVID yn 2020-21 (cyllid canlyniadol a chyllid a warentir gan Lywodraeth y DU).

Yn ychwanegol at y pedair thema arferol, sef gwerth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol (lle nad yw eisoes wedi'i chynnwys yn y sylwadau ar bob cam gweithredu):

**Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol**

Diweddariad ar berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai hyn gynnwys:

- Y rhai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol;
- Y rhai sydd wedi bod yn cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn;
- Manylion sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r byrddau iechyd hynny i fynd i'r afael â heriau tymor byr a gwella eu sefyllfa sylfaenol.

**Darparu gofal iechyd yn y dyfodol**

- Manylion sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o ofal rheolaidd, ac yn mynd i'r afael â'r croniad triniaethau nas cynhaliwyd yn sgil y pandemig.

**Llesiant cenedlaethau'r dyfodol**

Tystiolaeth o sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn cael manylion ynghylch sut y bydd y gyllideb, yn y dyfodol, yn gwneud y canlynol:

- Blaenoriaethu atal/ymyrryd yn gynnar ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;

- Cefnogi dull cyllido cynaliadwy, tymor hwy ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol;
- Hyrwyddo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy;
- Lleihau a rheoli gwariant ar staff asiantaeth;
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.

**Effaith COVID-19 ar ddyraniadau**

Manylion sut Y mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb o fewn y Prif Grwpiau Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Gyllideb Ddrafft ers blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i COVID-19. Yn benodol;

- Pa ragdybiaethau a wnaed ar gyfer y dyraniadau mewn perthynas â'r pandemig?
- Pa ddyraniadau a wnaed i gefnogi capasiti ychwanegol gwasanaethau i ymateb i'r achosion o COVID-19, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, gwasanaethau cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a'r rhaglen Profi Olrhain Diogelu;
- Pa ddyraniadau a wnaed i gefnogi'r gwaith posibl o gyflwyno unrhyw raglenni brechlyn COVID-19;
- Pa ddyraniadau a wnaed i sicrhau y cedwir cyflenwad digonol a phriodol o PPE;
- Manylion penodol ar y dyraniadau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer unrhyw adnoddau staffio ychwanegol

**Trawsnewid**

Rhagor o wybodaeth ynghylch:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy (h.y. y tu hwnt i oes y Gronfa Drawsnewid gyfredol), er mwyn sicrhau y gellir cynnal y cynnydd o ran cyflawni'r agenda drawsnewid, a bod ffocws ar gyflwyno'r hyn a ddysgwyd o beilotiaid llwyddiannus;
- Sut y bydd y gyllideb hon yn helpu i ddatblygu dull gweithredu 'system gyfan', gyda mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, fel y nodir yn *Cymru Iachach;*
- Unrhyw feysydd cyllido penodol eraill sydd wedi'u targedu i gefnogi'r gwaith o drawsnewid neu ddatblygu gwasanaethau;
- Wrth bennu ei chyllideb, sut y bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i fodloni pwysau presennol ar wasanaethau a'r angen i'w trawsnewid a datblygu modelau newydd o ofal.

**Gofal sylfaenol**

- Y gyllideb a ddyrennir ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, a sut y mae hyn yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. I ba raddau y mae hyn yn cyflawni nod y polisi, sef symud gofal o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol?

**Gofal cymdeithasol**

Y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2021-22, a manylion y meysydd a dargedir - lle bo hynny'n briodol - gyda chyllid o'r fath;
- Cefnogaeth i sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref;
- Cefnogaeth i ofalwyr.

**TGCh**

- Asesiad cyfredol ynghylch costau gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digidol a data, fel y nodir yn *Cymru Iachach*, a chan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a rhithwir.

**Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

- Gwybodaeth am ddyraniadau'r gyllideb yn eich portffolio o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.